**Adolygiad o Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.**

Ar 28 Mawrth, bydd Cynulliad Cymru yn cynnal dadl lawn ynghylch yr 'Adolygiad o Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol'. Disgwylir y bydd y ddadl yn pwyso ar adroddiad drafft sydd heb ei gyhoeddi ynghylch rhaglen Tirweddau Dyfodol Cymru (FLW, a sefydlwyd gan Carl Sargeant (Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar y pryd) mewn ymateb i'r 'Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru' dan arweiniad yr Athro Terry Marsden.

Mae adroddiad Tirweddau'r Dyfodol, a gadeirir gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, yn cynrychioli ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'r egwyddor fod tirweddau eiconig Cymru - yn cynnwys Parciau Cenedlaethol ac AOHNE - yn asedau cenedlaethol y mae angen eu diogelu ac y mae arnynt angen stiwardiaeth benodol. Mae lle i groesawu pwyslais y ddogfen ar weithio mewn partneriaeth a chydweithio, a'r gydnabyddiaeth i bwysigrwydd pob tirwedd, pa un ai a yw'n ddynodedig neu beidio.

Dibenion presennol y Parciau Cenedlaethol yw gwarchod a gwella eu harddwch naturiol, eu bywyd gwyllt, a'u treftadaeth ddiwylliannol, a hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu nodweddion arbennig. Mae bwriadu i ddeddfu i greu trydydd diben ar gyfer y Parciau Cenedlaethol i alluogi i adnoddau naturiol y mannau hyn gael eu rheoli mewn modd sy'n gwella lles cymdeithasol a ffyniant economaidd pawb sy'n byw yn y mannau arbennig hyn, yn eu defnyddio neu'n eu mwynhau. Argymhellir hefyd y dylai'r tri diben fod yn berthnasol i AOHNE hefyd.

**Fodd bynnag, mae angen datrys nifer o elfennau sy'n ansicr wrth symud y datblygiad hwn yn ei flaen. Maent yn cynnwys diffyg argymhellion a chanlyniadau eglur.**

**Yr hyn sydd ar goll o resymeg yr adroddiad yw amddiffyniad eithaf i warchod harddwch naturiol a bioamrywiaeth, ac felly, mae perygl y gall y ddau gael eu gwanhau neu eu herydu.** Dyma un rheswm pam mae rhai sefydliadau cadwraeth allweddol yn y broses FLW yn methu â chefnogi'r adroddiad ar ei ffurf bresennol. Nid oes cyfeiriad at sut caiff rôl cadwraeth Parc Cenedlaethol ei gynnal pan fydd gwrthdaro na ellir ei osgoi â'i ddibenion eraill. Mae Egwyddor Sandford yn sicrhau ar hyn o bryd fod gwarchod rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn drech na phopeth arall dan amgylchiadau o'r fath. Gwelir fod adroddiad Marsden wedi nodi'n benodol y byddai rhywbeth cryfach nag Egwyddor Sanford yn fesur amddiffynnol a chydbwysol hanfodol i gyd-fynd ag unrhyw ddiben ychwanegol newydd i Barciau Cenedlaethol. Mae Egwyddor Sandford yn un o gonglfeini hanfodol ein Parciau Cenedlaethol a hebddo gellid codi amheuon ynghylch eu statws Categori V IUCN[1]. Yn yr un modd, mae statws Prawf Silkin ar gyfer datblygiadau sylweddol mewn tirweddau o bwys cenedlaethol yn aneglur o dan gynnig presennol FLW.

**Gallai'r adroddiad ar ei ffurf bresennol arwain at leihau statws rhyngwladol y Parciau Cenedlaethol fel Tirweddau Gwarchodedig yng Nghymru, a gallai hynny yn ei dro leihau hygrededd yr agenda rheoli adnoddau yn gynaliadwy.**

**Nid yw'r adroddiad Tirweddau'r Dyfodol yn gwneud unrhyw ymrwymiad ychwaith i rôl Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fel awdurdodau cynllunio.** Mae rheoli'r mannau arbennig hyn yn gynaliadwy yn ei gwneud yn angenrheidiol i'r awdurdodau hyn fod ag awdurdodaeth dros gyfrifoldebau cynllunio a rheoli, ond mae'r bygythiad i bwerau cynllunio'r NPA yn Neddf Cynllunio Cymru yn dal yn bodoli.

Er bod y bwriad i ymestyn cwmpas neu gyrhaeddiad yr NPA presennol tu hwnt i'w terfynau yn ganmoladwy, nid yw hynny wedi'i ategu gan gynigion i sicrhau fod digon o gyllid cyhoeddus ar gael i gynnal cyfanrwydd a rhinweddau'r mannau o bwys cenedlaethol sydd eisoes wedi'u dynodi.

**Yn gryno – ble mae harddwch naturiol, adfer bioamrywiaeth ac egwyddor amddiffynol tebyg i Egwyddor Sandford yn yr 'adroddiad cyfoes newydd' hwn?**

[1] https://www.iucn.org/theme/protected-areas/about/protected-areas-categories

**The Review of National Parks and Areas of Outstanding Natural Beauty.**

On 28th March the Welsh Assembly will hold a plenary debate on the 'Review of National Parks and Areas of Outstanding Natural Beauty'. It is expected that the debate will draw on the unpublished draft report of the Future Landscapes Wales (FLW) programme, established by Carl Sargeant (then Minister for Natural Resources) in response to the 'Review of Designated Landscapes in Wales' led by Professor Terry Marsden.

The Future Landscapes report, chaired by Lord Dafydd Elis-Thomas AM, represents a commitment by Welsh Government to the principle that Wales' iconic landscapes - including National Parks and AONBs - are national assets which need safeguarding and require specific stewardship. There is cause to welcome the document's emphasis on partnership working and collaboration and the recognition of the importance of all landscapes regardless of whether they are designated or not.

National Parks' current purposes are to conserve and enhance the natural beauty, wildlife and cultural heritage and to promote opportunities for the understanding and enjoyment of their special qualities by the public. There is an intent to legislate to create a new third purpose for National Parks to enable the natural resources of these areas to be managed in ways which create enhanced social wellbeing and economic prosperity for all who live in, use or enjoy these special areas. It is further proposed that these three purposes should also apply to AONBs.

**There are however a number of uncertainties which should be addressed in taking this ambition forward. These include the lack of clear recommendations and outcomes.**

**Missing from the logic of the report is an ultimate safeguard for natural beauty and biodiversity, with a resultant risk that both may either be diluted or eroded.** This is one reason why some key conservation organisations in the FLW process are currently unable to support the report as it stands. There is no reference to how the conservation role of a National Park will be upheld where there is an inescapable conflict with its other purposes. The Sandford Principle currently ensures that in such circumstances protection of the National Park's special qualities is paramount. It is noted that the Marsden report identified a Sandford-plus principle as an essential protective balancing measure to accompany any new additional purpose for National Parks. The Sandford Principle is a fundamental pillar of our National Parks and without it their IUCN Category V status[2] could be questioned. The status of the Silkin Test for major development in nationally important landscapes is similarly unclear under the current FLW proposition.

**As currently drafted the report may run the risk of diminishing the international standing of National Parks as Protected Landscapes in Wales, in turn reducing the credibility of the sustainable resource management agenda**.

**Equally the Future Landscapes report makes no commitment to the role of National Park Authorities as planning authorities.** Sustainable management of these special areas requires that these authorities have jurisdictions for both planning and management responsibilities, yet the threat to NPA planning powers in the Planning Wales Act remains extant.

The intent to extend the range or reach of current NPAs beyond their boundaries whilst laudable is not backed by proposals to ensure sufficient public funding to maintain the integrity and qualities of those nationally important areas already designated.

**In short – where are natural beauty, biodiversity recovery, and a Sandford-type protective principle in this 'new contemporary account'?**

[2] https://www.iucn.org/theme/protected-areas/about/protected-areas-categories